**CYNGOR TREF CAERFYRDDIN**
**PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL**
**11 MEDI 2018**

**CARMARTHEN TOWN COUNCIL**
**GENERAL PURPOSES COMMITTEE**
**11 SEPTEMBER 2018**

**CYNGOR TREF CAERFYRDDIN**
**Y PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL**
**A GYNHALIWYD AR 11 MEDI 2018**

Y Cadeirydd, y Cyng Angharad Jones Leefe fu’n cadeirio’r cyfarfod o’r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Ddinesig San Pedr, nos Fawrth yr 11eg o Fedi 2018.

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorwyr: Angharad Jones Leefe, Peter Hughes Griffiths, Emlyn Schiavone ac Alun Lenny.

Mr Alun Harries - Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Llinos Jenkins - Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau

**132. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Arwel Lloyd, Phil Grice, Dr Baba Gana, Barry Williams a Miriam Moules.

**133. Datganiadau o Ddiddordeb**

Datganodd y Cyng Alun Lenny ddiddordeb yn eitem 4(a) ar yr Agenda fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

Datganodd y Cyng Emlyn Schiavone ddiddordeb yn eitem 4(a) fel cyfaill i’r ymgeisydd.

**134. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod Dibenion Cyffredinol blaenorol**

Dim i’w nodi.

**135. Cynllunio**

W/37755 - 21 Heol Morfa Brenin, Caerfyrddin - Dim Gwrthwynebiad

Dywedodd y Clerc fod yr Apêl Cynllunio yn ymwneud â Chartref Tawelan wedi'i gadarnhau (upheld?) gan Arolygiaeth Cynllunio Cymru.

**136. Priffyrdd**

Cau Ffordd Dros Dro - Stryd y Cei, Caerfyrddin - Nodwyd

Enwi Strydoedd - Cwrt Cae Bach, oddi ar Heol Llysonnen - Dim Gwrthwynebiad

**137. Trwyddedu**

Dim i’w drafod.

**138. Lifft yn Neuadd Ddinesig San Pedr**

Cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng Angharad Jones Leefe a gytunwyd bod **ARGYMHELLIAD** yn cael ei wneud i'r Cyngor i geisio dyfynbrisiau ar gyfer y lifft grisiau newydd i'r Neuadd (am fod yr un presennol wedi tori) ac ail edrych ar y mater o lifft siafft i'r Neuadd ar ôl gosod y lifft grisiau.

**139. Prosiect LINC - Arolwg Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig - Cyngor Sir Caerfyrddin.**

Cynigiwyd gan y Cyng Angharad Jones Leefe eiliwyd gan y Cyng Alun Lenny, a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid dosbarthu ebost o'r arolwg i bob aelod i gwblhau'r arolwg yn unigol.

**140. Systemau a Chymorth TG i'r Cyngor a chefnogaeth ar gyfer cyflwyno cyfeiriadau e-bost Cyngor Tref Caerfyrddin ar gyfer Aelodau**

Cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng Alun Lenny, a chytunodd pawb y dylid gwneud **ARGYMHELLIAD** i'r Cyngor y dylai Cyngor Tref Caerfyrddin ddarparu cyfeiriadau e-bost i'r holl Gynghorwyr trwy Office 365 gyda'r enw .cymru.

**141. Cofeb Rhyfel y Sir yn Stryd y Priordy**

Cynigiwyd gan y Cyng Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths a chytunodd pawb fod **ARGYMHELLIAD** yn cael ei wneud i'r Cyngor y dylai Cyngor Tref Caerfyrddin lanhau'r Gofeb Rhyfel ar ôl ceisio arweiniad wrth CSC ar y mater hwn.

**142. Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad**

Cynigiwyd gan y Cyng Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, a chytunodd pawb y dylid gwneud **ARGYMHELLIAD** i'r Cyngor y dylai Cyngor Tref Caerfyrddin osod yr arwydd priodol ym Mynwent y Dref.

**143. Rheolau Sefydlog a Chyfansoddiad y Cyngor Tref**

Cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng Alun Lenny, a chytunodd pawb y dylid gwneud **ARGYMHELLIAD** i'r Cyngor y dylid mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog ac eithrio eitem 13.7, cytunodd y Pwyllgor y dylid pleidleisio ar hyn yn y Cyngor Llawn.

**144. Diogelwch Rhandiroedd Five Fields**

Cynigiwyd gan y Cyng. Emlyn Schiavone, eiliwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, a chytunodd pawb y dylid gwneud **ARGYMHELLIAD** i'r Cyngor y dylid derbyn Opsiwn 3 - *'Darparu ffens diogelwch mwy effeithiol ar gyfer y llwybr*

*cyhoeddus presennol, trwy ganol y rhandiroedd - mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnig darparu'r ffens diogelwch hon yn rhad ac am ddim (fel rhan o'r Prosiect Datblygu Gwlypdiroedd) yn amodol i'r Cyngor Tref gytuno i gymryd dros gynnal a chadw'r Gwlypdiroedd, gan gynnwys y llwybrau cyhoeddus sy'n ffurfio rhan neu'n teithio drwyddo.'*

**145. Cefnogi a Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg: Ymchwiliad i'r deddfwriaeth, polisi a chyd-destun ehangach**

Cynigiwyd gan y Cyng Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyng Emlyn Schiavone, a chytunodd pawb y dylid gwneud **ARGYMHELLIAD** i'r Cyngor fod y cyflwyniadau canlynol yn cael eu gwneud i'r broses ymchwiliad -

1. Rydym yn croesawi'r ffaith bod y gwaith ymchwil hwn yn edrych ar ymarfer rhyngwladol i geisio hybu'r iaith;
2. Mae'n bwysig sicrhau gonestrwydd neu 'integrity' y corff newydd trwy ymateb yn wrthrychol ac yn amholiticaidd yn y rôl;
3. Mae angen diffiniad clir a ddiamwys o'r gair 'difrifol' yng nghyswllt cwynion i'r corff;
4. Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn awyddus i sicrhau bod y mesurau newydd yn gryfach na phwerau'r Comisiynydd Iaith - mae'r gwendidau hyn wedi bod yn destun rhwystredigaeth yn y gorffenol;
5. Dylai'r mesur fod yn berthnasol i'r sector breifat ynghyd â'r sector cyhoeddus er mwyn hybu'r iaith Gymraeg sector breifat.

**146. Diogelwch yng nghefn Neuadd Ddinesig San Pedr**

**NODWYD** adroddiad Clerc y Dref .

**147. Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf a Sul y Cofio**

**NODWYD** adroddiad Clerc y Dref.

**148. Bioamrywiaeth a Rheoli Amgylchedd - Cynllun Gweithredu**

**NODWYD** adroddiad Clerc y Dref .

**149. Meysydd chwarae yng Nghaerfyrddin**

Fel rhan o'r drafodaeth a gynhaliwyd ar ddarpariaeth Ardaloedd Chwarae yng Nghaerfyrddin, gofynnodd y Cyng Peter Hughes Griffiths am adolygiad o Raglen yr Haf yn y Parc. Dywedodd y Clerc y byddai'r ymgynghoriad a wnaethpwyd dros yr Hâf yn cael ei gyflwyno fel adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Hydref. Cytunwyd y byddai'r adolygiad o'r Meysydd Chwarae a'r Rhaglen Haf yn rhan o'r adroddiad hwnnw.

**150. Adroddiad y Swyddog Gweithrediadau**

**NODWYD** yr adroddiad.

**151. Adroddiad ar Ddigwyddiadau a Phrosiectau**

Roedd y Cynghorwyr yn dymuno diolch i staff Cyngor Tref Caerfyrddin am eu gwaith ar Daith Prydain.
**NODWYD** yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:20 yr hwyr.**

# CARMARTHEN TOWN COUNCIL
# GENERAL PURPOSES COMMITTEE
# HELD ON 11 SEPTEMBER 2018

The Chair, Cllr Angharad Jones Leefe, presided over the meeting of the General Purposes Committee held in St Peter's Civic Hall, on Tuesday, 11th September 2018.

**PRESENT**: Councillors: Angharad Jones Leefe, Peter Hughes Griffiths, Emlyn Schiavone and Alun Lenny.

Mr Alun Harries – Clerk to the Town Council
Mrs Llinos Jenkins – Committee Services Officer

**132. Apologies**

Apologies for absence were received from Cllrs Arwel Lloyd, Phil Grice, Dr Baba Gana, Barry Williams and Miriam Moules.

**133. Declarations of Interest**

Cllr Alun Lenny declared an interest in Agenda item 4(a) as Chair of the County Council Planning Committee.

Cllr Emlyn Schiavone declared an interest in Agenda item 4(a) as an acquaintance of the applicant.

**134. Matters arising from minutes of the previous General Purposes Committee Meeting**

No matters arose.

**135. Planning Applications**

W/37755 – 21 Heol Morfa Brenin, Carmarthen – No Objections

The Clerk advised that the Planning Appeal in relation to Cartref Tawelan had been upheld by the Planning Inspectorate Wales.

**136. Highways Matters**

Temporary Road Closure – Quay Street, Carmarthen – Noted

Street Naming – Cwrt Cae Bach, off Llysonnen Road – No Objections

**137. Licensing Matters**

None presented.

**138. Lift at St Peter's Civic Hall**

It was proposed by Cllr Peter Hughes Griffiths, seconded by Cllr Angharad Jones Leefe and agreed by all that a **RECOMMENDATION** be made to Council to seek quotes for the work on ta new stair lift to the Hall (to replace the broken stair lift), and revisit the issue of a shaft lift to the Hall after the installation of the stair lift.

**139. LINC Project – Integrated Transport Network Survey – Carmarthenshire County Council.**

It was proposed by Cllr Angharad Jones Leefe seconded by Cllr Alun Lenny, and **AGREED** by all that a link for the survey should be circulated to all members to complete the survey individually.

**140. Town Council IT Systems & Support for the Introduction of Carmarthen Town Council Email addresses for Members**

It was proposed by Cllr Peter Hughes Griffiths, seconded by Cllr Alun Lenny and agreed by all that a **RECOMMENDATION** be made to Council that Carmarthen Town Council should provide email addresses for all Councillors via Office 365 with the domain name .cymru.

**141. The County War Memorial at Priory Street**

It was proposed by Cllr Alun Lenny, seconded by Cllr Peter Hughes Griffiths and agreed by all that a **RECOMMENDATION** be made to Council that Carmarthen Town Council should clean the War Memorial after seeking guidance from CCC on this matter.

**142. Commonwealth War Graves Commission**

It was proposed by Cllr Alun Lenny, seconded by Cllr Peter Hughes Griffiths and agreed by all that a **RECOMMENDATION** be made to Council that Carmarthen Town Council should place the requested sign at the Town Cemetery.

**143. Standing Orders and a Town Council Constitution**

It was proposed by Cllr Peter Hughes Griffiths, seconded by Cllr Alun Lenny and agreed by all that a **RECOMMENDATION** be made to Council that the Standing Orders and Constitution should be adopted bar item 13.7 which the Committee agreed should be subject to a vote at Full Council.

**144. Security at Five Fields Allotments**

It was proposed by Cllr Emlyn Schiavone, seconded by Cllr Peter Hughes Griffiths and agreed by all that a **RECOMMENDATION** be made to Council that

Option 3 should be accepted . ‘*Providing a more effective security fence for the existing public footpath through the middle of the allotments - Carmarthenshire County Council has offered to provide this security fencing free of charge (as part of the Wetlands Development Project) in return for the Town Council agreeing to take over the maintenance of the Wetlands, including the public footpaths forming part or travelling through it.’*

**145. Supporting and Promoting the Welsh Language : An inquiry into the legislative, policy and wider context**

It was proposed by Cllr Alun Lenny, seconded by Cllr Emlyn Schiavone and agreed by all that a **RECOMMENDATION** be made to Council that the following submissions should be made to the enquiry -
1. We welcome the fact that this research looks at international practice to try and promote the language;
2. It is important to ensure the honesty or integrity of the new body by responding objectively and with neutrality in the role;
3. There is a need for a clear and unambiguous definition of the word 'serious' in relation to complaints to the body;
4. Carmarthen Town Council is keen to ensure that the new measures are stronger than the powers of the Language Commissioner - these weaknesses have been the subject of frustration in the past;
5. . The measure should be relevant to the private sector, as well as the public sector, in order to encourage the use of the language in the private sector.

**146. Security at the rear of St Peter’s Civic Hall**

The Town Clerk’s report was **NOTED**.

**147. WW1 Commemoration and Remembrance Sunday Schedule**

The Town Clerk’s report was **NOTED**.

**148. Biodiversity and Environment Management – Action Plan**

The Town Clerk’s report was **NOTED**.

**149. Play areas in Carmarthen**

As part of the discussion held on the provision of Play Areas in Carmarthen, Cllr Peter Hughes Griffiths also asked for a review of the Summer Programme at the Park. The Clerk advised that the consultation undertaken in the Park over the Summer would be submitted as a report to the Committee in October. It was agreed that the review of the Play Areas and the Summer Programme would form part of that report.

**150. Operations Officer's Report**

Noted.

**151. Events and Projects Report**

Councillors wished to thank Carmarthen Town Council staff on their work on the Tour of Britain.

**The meeting closed at 9:20pm.**